# 7: Llanbedrog - Chwilog

**Pellter / Distance: 16.4km/10.2m**

Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
Hawlfraint y Goron
Mae ailgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
Crown copyright
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007

Cewch brofi un arall o drysorau Penrhyn Llŷn wrth fynd o amgylch Trwyn Llanbedrog sydd yn gwahanu traethau Abersoch a Llanbedrog. Dyma olygfan wych i fwynhau godidowgrwydd Bae Ceredigion. Mae'n anodd dweud ai'r golygfeydd neu'r gwmnïaeth a ddenodd ymwelwyr yr Oes Edwardaidd a ddaeth i Lanbedrog i ddefnyddio'r cytiau pwrpasol a godwyd wrth ymyl y traeth yma. Mae'n debyg na fyddai teulu Plas Glyn y Weddw wedi ei chael yn anodd i ddenu ffrindiau yma chwaith.

Rydych yn ffodus bod rhan nesaf y llwybr yn mynd â chi yn agos iawn at draeth hir arall sef Traeth Crugan. Dyma gyfle i chwilota am drysorau ymysg y broc môr sydd yn gorwedd flith draphlith ar ei hyd. Wedi cyrraedd Pwllheli cewch gyfle i fanteisio ar gaffi bach yng nghanol y dref cyn mynd ymlaen at Abererch. Mae croesi'r morfa cyfagos yn rhoi blas ar dirwedd arbennig sydd yn gynefin i gwtiaid torchog, dyfrgwn, celyn y môr a phabi'r môr cyn troi tuag at y tir ac at bentref Chwilog.




Cwtiad torchog/Ringed plover

Celyn y môr/Sea holly

You will be able to experience another one of the Llŷn's gems as you round the headland that separates the beaches of Abersoch and Llanbedrog. This is a wonderful viewpoint from which to admire the splendour of Cardigan Bay. It's difficult to say whether it was the views or the social company that attracted visitors of the Edwardian era who came to Llanbedrog to use the huts along the beach here. We can presume that the Plas Glyn y Weddw family would not have had difficulties attracting friends to soirées at their mansion nearby.

You are fortunate that the next section takes you along the edge of Traeth Crugan, another wide beach. Here is an opportunity to comb the sands for treasures, which lie scattered along its length. On reaching Pwllheli take advantage of refreshments in one of the town centre cafés before leaving towards Abererch. Crossing the nearby flats gives you a taste of a special landscape which is a habitat for ringed plover, otters, sea holly and sea poppy before turning inland towards the village of Chwilog.